


Cafcass Cymru

Adroddiad

Blynyddol

2019–2020



Cynnwys

Rhagair gan y Prif Weithredwr	3
Ffeithiau Allweddol	4
Nod 1: Darparu cyngor a gwybodaeth amserol, annibynnol, arbenigol ac o ansawdd da i blant, teuluoedd a llysoedd	5
Nod 2: Sicrhau bod ein hymyriad yn hyrwyddo llais y plentyn ac yn canolbwyntio ar eu hawliau, lles a budd gorau	6
Nod 3: Dylanwadu ar y System Cyfiawnder Teuluol a gwasanaethau i blant yng Nghymru	7
Nod 4: Galluogi staff i fod y gorau y gallant fod mewn sefydliad dynamig, amrywiol ac agored	9
Edrych tua'r flwyddyn nesaf	10



Rhagair gan y Prif Weithredwr

Bu hon yn flwyddyn heriol arall i Cafcass Cymru. Fe wnaethom weithio gyda dros 10,400 o blant, sy'n gynydd o 8% ar 2018-2019. Yn ogystal â'r cynnydd hwn, bu'n rhaid i'r sefydliad gymryd camau pendant mewn ymateb i'r pandemig ac addasu'n gyflym trwy ddarparu gwasanaeth o bell i blant, teuluoedd a llysoedd. Rwy'n hynod falch o'n staff a ymatebodd yn gyflym ac yn broffesiynol i'r newidiadau y bu'n rhaid i ni eu gwneud i'r modd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau. Bu eu hymrwymiad i blant, eu teuluoedd a'r llysoedd yr ydym yn gweithio gyda nhw yn rhagorol ac mae wedi galluogi Cafcass Cymru i barhau i ddarparu gwasanaeth a helpu i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant yng Nghymru drwy gydol y cyfnod anodd hwn.

Daeth ein Cynllun Strategol 2016-19 i ben eleni ac fe wnaethom gydweithio â'n staff, rhanddeiliaid a'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Bobl Ifanc i ddatblygu ein Cynllun Strategol Pum Mlynedd newydd a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2020. Mae ein Strategaeth Pum Mlynedd newydd yn ceisio ychwanegu at yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni eisoes a sicrhau bod Cafcass Cymru mewn sefyllfa dda i barhau i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i blant, teuluoedd a llysoedd yng Nghymru.

Mae uchafbwyntiau eleni yn cynnwys:

- Cryfhau ein cysylltiadau â phrifysgolion, Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield a Banc Data SAIL i gynnal ymchwil a fydd yn gwella canlyniadau i blant sy'n rhan o'r System Cyfiawnder Teuluol.
- Cyfrannu'n weithredol at waith y Grwpiau Cynghori ar Gyfraith Gyhoeddus a Phreifat i ddatblygu cynigion i wella a diwygio'r system cyfiawnder teuluol.
- Datblygu ein Cynllun Strategol newydd ar gyfer 2020-2025.
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a staff i lunio canllawiau arfer newydd i ymarferwyr, gan gynnwys Canllawiau Ymarfer Cam-drin Domestig, Canllawiau Ymarfer ar Wrthdaro Niweidiol a Chanllawiau Ymarfer Anfodlonrwydd neu Wrthodiad Plant i Dreulio Amser gyda Rhiant.
- Cryfhau ein perthynas â Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Bobl Ifanc.

Nigel Brown
Prif Weithredwr

Ffeithiau Allweddol:



Fe wnaethom weithio gyda **10,439** o blant a phobl ifanc, **cynnydd o 8%** ar y flwyddyn flaenorol.



Cawsom **1695** o geisiadau cyfraith gyhoeddus, **gostyngiad o 5%** ar 2018-2019.



Gwelsom **890** o geisiadau Adran 31, **13% yn is** na'r flwyddyn flaenorol.



Roeddem yn gysylltiedig â **2338** o Apwyntiadau Datrys Anghydfod Gwrandawriad Cyntaf.

cafodd **692** eu datrys yn llwyddiannus heb ragor o waith oherwydd cytunodd y partïon ar drefniadau a oedd yn ddiogel, yn addas ac er budd gorau y plentyn; **cynnydd o 30%** ar 2018-2019.

arweiniodd **1060** at Cafcass Cymru yn cynnal adroddiad Dadansoddiad o Effaith ar Blant, pan gyfarfu ein hymarferwyr â phlant i gael gwell dealltwriaeth o'u hanghenion cyn gweithio gyda'r partïon dan sylw.

Gwnaed rhagor o waith gyda theuluoedd mewn **877** o achosion.



Cawsom **31** o geisiadau am lety diogel o'i gymharu â **25** yn 2018-2019, **cynnydd o 24%** ar y cyfnod blaenorol.



Nod I:

Darparu cyngor a gwybodaeth amserol, annibynnol, arbenigol ac o ansawdd da i blant, teuluoedd a llysoedd.

Dangosyddion Perfformiad Allweddol

- O'r ceisiadau Adran 31, dyrannwyd **93%** o fewn 2 ddiwrnod gwaith, a **43%** ar ddiwrnod derbyn y cais.
- Dyrannwyd **95%** o geisiadau Adran 7 o fewn 5 diwrnod gwaith, a **31%** ar ddiwrnod derbyn y cais.
- Bodlonodd **88%** o adroddiadau Adran 7 eu dyddiad ffeilio gan y llys.
- Bodlonodd **96%** o adroddiadau diogelu eu dyddiad ffeilio gan y llys — cynnydd ar y flwyddyn flaenorol.

Yn sgil ein hymyriadau cafodd plant eu diogelu a'u lleisiau eu clywed mewn achosion cyfraith deuluol.

Sierwydd Ansawdd

Gwnaethom adroddiadau thematig ar achosion yn ymwneud â:

- Diffyg Rhyddid
- Llety Diogel
- Achosion Gofal
- Dirymu Gorchmynion Lleoliad

Rhennir canfyddiadau a gwersi'r adroddiadau hyn â rhanddeiliaid i wella arfer a chanlyniadau i blant yng Nghymru.



Model Adolygu Arfer

Mae'r model adolygu arfer yn ddull wedi'i seilio ar gryfderau sy'n hyrwyddo dysgu a datblygiad.

Mae'r cryfderau allweddol a nodwyd yn ein hadolygiadau arfer yn cynnwys:

- Argymhellion diogel sy'n eglur ac wedi'u seilio ar dystiolaeth
- Asesiadau sy'n canolbwyntio ar y plentyn
- Ymgysylltiad effeithiol â rhanddeiliaid
- Adnabod a dadansoddi risg/effaith risg
- Casglu a dadansoddi gwybodaeth yn effeithiol

Cyllideb

- Ein cyllideb ar gyfer y flwyddyn oedd **£11,738,000**.
- Gwariwyd **93%** o'n cyllideb ar gostau staffio.
- Gwariwyd **7%** ar ein costau cynnal a gwasanaethau cymorth i deuluoedd drwy orchymyn llys.



Nod 2:

Sicrhau bod ein hymyriad yn hyrwyddo llais y plentyn ac yn canolbwyntio ar eu hawliau, lles a budd gorau.



Rydym wedi ymrwymo i gynnal ein perthynas gref â'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Bobl Ifanc (y Bwrdd), sy'n rhan annatod o ddatblygiad ein gwasanaethau.

Fe wnaethom hyrwyddo Awgrymiadau Da y Bwrdd ar Amrywiaeth a Chynhwysiant a hwyluso sesiynau yn canolbwyntio ar ymarfer gyda'n hymarferwyr ar amrywiaeth yn ein hardaloedd gweithredu lleol.

Fe wnaethom ni gefnogi'r Bwrdd i godi ymwybyddiaeth o'u gwaith yng Nghymru ac, yn dilyn ymgyrch recriwtio lwyddiannus, mae 76 o aelodau ar y Bwrdd bellach, ac mae 9 o'r rhain o Gymru.

Fe wnaethom ddatblygu cynllun strategol pum mlynedd newydd a chyfrannodd y Bwrdd at hwn yn sylweddol i sicrhau bod budd gorau plant a phobl ifanc wrth wraidd popeth yr ydym yn bwriadu ei wneud.

Mae'r Bwrdd yn chwarae rhan allweddol mewn recriwtio ein hymarferwyr gwaith cymdeithasol ac mae person ifanc yn aelod o'n holl baneli cyfweld ar gyfer ymarferwyr.



Nod 3:

Dylanwadu ar y System Cyfiawnder Teuluol a gwasanaethau i blant yng Nghymru.

Gwaith cydweithredol

Rydym yn parhau i fod yn aelod gweithredol o'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol, y Cyngor Cyfiawnder Teuluol a'r Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol (Cymru). Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom gyfrannu'n sylweddol at waith y Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus a'r Gweithgor Cyfraith Breifat.


Fe wnaethom gyfrannu at ddatblygiad a chyflwyniad menter Llywodraeth Cymru y "Cynnig Safonol" o gymorth i warcheidwaid arbennig, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020, sy'n allweddol i ddatblygu gwell cymorth i blant a gofalmwr.

Fe wnaethom gydweithredu â rhanddeiliaid i ddatblygu canllawiau arfer da ar gyfer mabwysiadu. Mae'r rhain yn cynnwys canllawiau arfer gorau ar helpu plant i drosglwyddo a gwneud penderfyniadau ynglŷn â chysylltu â rhieni biolegol a brodyr a chwiorydd.

Rydym wedi ymrwymo i godi ymwybyddiaeth a darparu hyfforddiant i sicrhau bod gan ein holl ymarferwyr wybodaeth ymarferol o'r gwelliannau arfer sy'n ofynnol yn y meysydd hyn.

Rydym yn parhau i weithio'n agos ag awdurdodau lleol i ddatblygu ffyrdd o gydweithio i wella canlyniadau i blant a'u teuluoedd. Roedd hyn yn cynnwys:

- Dull treialu i gynnal adolygiadau o achosion ar y cyd
- Rhaglen dreialu i gyflymu'r broses o Gyflawni Gofynion Gofal
- Cyfleoedd hyfforddi ar y cyd ag awdurdodau lleol




Ymchwil

Rydym yn parhau i gryfhau cysylltiadau ag Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield (yr Arsyllfa) a Banc Data SAIL Prifysgol Abertawe i hysbysu ymchwil a fydd yn gwella ein dealltwriaeth ar y cyd o ganlyniadau i blant sydd wedi bod yn rhan o'r system cyfiawnder teuluol. Roedd hyn yn cynnwys darparu data gweinyddol Cafcass Cymru i'r Arsyllfa, a ddefnyddiwyd wedyn i ysgrifennu 'Mewn gofal o'u geni: babanod newydd-anedig a phlant bach mewn achosion gofal yng Nghymru' a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2019. Darparodd yr adroddiad hwn ddirnadaeth gyfarwyddol i'r sector ynglŷn â niferoedd a chyfran y babanod newydd-anedig a phlant bach sy'n gysylltiedig ag achosion llys adran 31 yng Nghymru.

Gan ategu'r gyfres Mewn Gofal o'u Geni, cyhoeddwyd gwaith arall ym mis Mehefin 2020 yn canolbwyntio ar anghenion ieuchyd mamau a babanod sy'n rhan o achosion gofal — 'Mewn Gofal o'u Geni: Mil o famau mewn achosion gofal yng Nghymru.'

Amrywiaeth a Chynhwysiant

Eleni, fe wnaethom adnewyddu ein rhwydwaith o hyrwyddwyr anabledd mewnol i gynnig cyngor a chymorth i gydweithwyr i sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael i'r rhai â nam, cyflwr ieuchyd neu sy'n defnyddio laith Arwyddion Prydain. Fe wnaethom hwyluso diwrnodau datblygu staff gyda chymorth gan Anabledd Cymru ac ASD Info Wales i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo arfer gorau.



Nod 4:

Galluogi staff i fod y gorau y gallant fod mewn sefydliad dynamig, amrywiol ac agored

Dysgu a Datblygu

Rydym wedi ymrwymo i fod yn sefydliad sy'n dysgu lle mae ein staff yn derbyn cyfleoedd i barhau i ddysgu a datblygu. Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom ni:

- Hwyluso lleoliadau gwaith cymdeithasol i fyfyrwyr yn ein holl ardaloedd gweithredu.
- Cefnogi ymarferwyr i ymgymryd â'r Dyfarniad Aseswyr Ymarfer.
- Cyfrannu at yr Adroddiad Niwed a gomisiynwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.
- Darparu amrywiaeth o hyfforddiant i staff ar bynciau fel cam-drin domestig, gwrthdaro niweidiol, ymlyniad a pherthynas brodyr a chwiorydd, gweithdrefnau diogelu a sgiliau llys.

Cwynion a Chanmoliaeth

Yn ystod 2019-2020 fe wnaethom weithio gyda dros 10,000 o blant a'u teuluoedd a derbyn 94 o gwynion. O'r rhain, roeddem yn gallu datrys 71 ar y cam datrysiad cynnar, ond aeth 23 i ymchwiliad llawn.

Yn ystod y flwyddyn cawsom 22 o gwynion gan rieni, plant, cyfreithwyr a'r farnwriaeth.



Edrych tua'r flwyddyn nesaf

Cynllun strategol newydd

Yn ystod 2019-20 fe wnaethom weithio gyda chydweithwyr, rhanddeiliaid a'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Bobl Ifanc i ddatblygu Cynllun Strategol Pum Mlynedd newydd sy'n nodi ein gwerthoedd a'n nodau sefydliadol craidd. Mae ein Cynllun Strategol wedi'i strwythuro yn ôl tri philer — ein gwasanaeth, ein staff a'n rhanddeiliaid — yn disgrifio sut yr ydym yn dymuno darparu'r gwasanaeth gorau posibl i blant, teuluoedd a llysoedd. Ein gwerthoedd sefydliadol yw:

- Canolbwyntio ar y Plentyn — mae plant a phobl ifanc yn ganolog i'n holl waith
- Cynhwysol — rydym yn parchu gwahaniaeth, herio gwahaniaethu, hyrwyddo cynhwysiant a chroesawu amrywiaeth

Uniondeb a Pharch — rydym yn gweithio mewn modd teg, gonest a thryloyw gyda phawb, gan werthfawrogi a pharchu eu hunigrywiaeth

Addasu i Covid-19

Ym mis Mawrth 2020 fe wnaethom ni gymryd camau pendant mewn ymateb i'r pandemig i sicrhau ein bod yn gallu parhau i ddarparu gwasanaeth i blant, teuluoedd a llysoedd. Roedd blaenoriaeth ar yr angen i amddiffyn ein staff a'r rhai yr ydym yn gweithio gyda nhw, felly bu'n rhaid newid y ffordd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau ar unwaith gan ddibynnu'n fawr ar dechnoleg i hwyluso ffyrdd o weithio o bell.

Byddwn yn parhau i addasu sut rydym yn darparu ein gwasanaethau wrth i'r pandemig barhau ac ystyried sut i sefydlu rhai o'r ffyrdd newydd o weithio yn ein harfer a darpariaeth weithredol ein gwasanaeth yn y dyfodol.

Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae Cafcass Cymru wedi ymrwmo i barchu gwahaniaeth, herio gwahaniaethu, hyrwyddo cynhwysiant a chroesawu amrywiaeth. Rydym yn bwriadu cyflwyno amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd hyfforddi i staff yn rhan o'n hymrwymiad i ddarparu gwasanaeth cynhwysol. Er mwyn ein helpu i ddeall yn well anghenion y rhai yr ydym yn gweithio gyda nhw, rydym wedi bod yn gweithio gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Bobl Ifanc i ddatblygu a gweithredu dull newydd ar adeg atgyfeirio ac i gasglu gwybodaeth am ein defnyddwyr gwasanaeth. Bydd hyn yn ein galluogi i ddeall yn well anghenion ac amgylchiadau y rhai yr ydym yn gweithio gyda nhw ac yn ein cefnogi i ddarparu gwasanaeth mwy cynhwysol. Nodir pileri ein dull isod:

- Anableddau Gweledol a Chudd
- Ffactorau Iechyd Meddwl ac Amlygiad i Niwed
- Rhywedd a Rhywioldeb
- Ethnigrwydd a Diwylliant
- Llythrennedd ac Iaith

